

STRATEGAETH LLAIS Y PLENTYN



Cyngor
Gwynedd

Fforymau Llais Plant a Phobl Ifanc Gwynedd

Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn unrhyw iaith neu ddiwyg arall, e.e. print bras neu Braille, cysylltwch â'r Adran Addysg, Cyngor Gwynedd.

Cynnwys

Diben yr Atodiad	3
Datganiad Polisi	3
Egwyddorion Gweithredu	4
Sut mae'r strwythur yn gweithio?	5
Y cysylltiad â gwneud penderfyniadau	6
Y cylch gweithredu	7
Sut mae'r fforymau yn gwneud gwahaniaeth?	7
Beth ddylem ei weld mewn trefniadau effeithiol?	8
Mesur Effaith	8
Rolau a chyfrifoldebau	9
Model gweithredu'r Fforwm a'r Cabinet Pobl Ifanc	10

FFORYMAU LLAIS PLANT A PHOBL IFANC GWYNEDD

Diben yr Atodiad

Diben yr atodiad hwn yw dangos sut mae fforymau llais plant a phobl ifanc Gwynedd yn gweithredu fel rhan o drefniadau corfforaethol Cyngor Gwynedd i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu dylanwadu yn ystyrlon ar benderfyniadau, gwasanaethau a blaenoriaethau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mae'r atodiad yn ategu'r Strategaeth Llais y Plentyn drwy osod allan y ffordd y mae barn, profiadau a blaenoriaethau plant a phobl ifanc yn cael eu casglu, eu trafod, eu cynrychioli, eu trosglwyddo i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, ac yn arwain at weithredu ac adborth.

Nid diben y fforymau yw cynnal ymgynghoriadau untro yn unig. Eu diben yw creu trefn barhaus, gynhwysol ac atebol lle mae plant a phobl ifanc yn cael lle diogel i leisio barn, cynulleidfya berthnasol i wrando arnynt, a llwybr clir i'w barn ddylanwadu ar newid.

Datganiad polisi

Bydd Cyngor Gwynedd yn cynnal ac yn datblygu fforymau llais plant a phobl ifanc fel rhan greiddiol o'i drefniadau cyfranogiad, llywodraethu a gwella gwasanaethau.

Bydd y fforymau yn gweithredu ar y sail bod plant a phobl ifanc yn ddeiliaid hawliau, ac y dylid rhoi pwys priodol ar eu barn

mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Bydd y trefniadau yn sicrhau bod llais plant a phobl ifanc yn cael ei gasglu mewn ffordd ystyrlon, ei gynrychioli yn deg, ei gyflwyno i'r bobl iawn, ac yn arwain at weithredu, adborth neu esboniad clir pan nad yw newid yn bosibl.

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod y fforymau yn:

- darparu cyfleoedd rheolaidd i blant a phobl ifanc leisio barn ar faterion sy'n bwysig iddynt;
- cynnwys ystod amrywiol o blant a phobl ifanc o wahanol ardaloedd, cefndiroedd, gwasanaethau a phrofiadau;
- cysylltu strwythurau lleol, rhanbarthol a sirol mewn ffordd glir;
- galluogi plant a phobl ifanc i godi materion eu hunain, yn ogystal ag ymateb i gwestiynau gan wasanaethau'r Cyngor;
- sicrhau bod barn plant a phobl ifanc yn cael ei rhannu â swyddogion, aelodau etholedig, timau rheoli a phwyllgorau perthnasol;
- arwain at gynlluniau gweithredu clir, lle bo hynny'n briodol;
- rhoi adborth i blant a phobl ifanc ar beth sydd wedi digwydd o ganlyniad i'w cyfraniad.

Egwyddorion gweithredu

Cyfranogiad ystyrlon

Bydd cyfranogiad drwy'r fforymau yn fwy na chyfle i leisio barn. Bydd yn cynnwys gwranddo, trafod, cytuno ar flaenoriaethau, gweithredu ac adolygu effaith. Dylai plant a phobl ifanc allu gweld sut mae eu barn wedi cael ei defnyddio, neu ddeall pam nad oedd modd gweithredu arni.

Cynhwysiant

Bydd y trefniadau yn ceisio cynnwys plant a phobl ifanc o bob rhan o Wynedd, gan gynnwys y rhai nad ydynt bob amser yn cyfrannu drwy strwythurau ffurfiol. Bydd dulliau amrywiol yn cael eu defnyddio, gan gynnwys trafodaethau wyneb yn wyneb, arolygon, holiaduron, cyfleoedd digidol, grwpiau lleol a fforymau rhanbarthol.

O'r lleol i'r strategol

Bydd materion yn gallu symud o lefel leol i lefel ranbarthol ac yna i lefel sirol. Bydd hyn yn sicrhau bod profiadau plant a phobl ifanc mewn ysgolion, clybiau ieuenctid, gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau arbenigol yn gallu dylanwadu ar gynllunio gwasanaethau a phenderfyniadau strategol.

Tryloywder ac adborth

Bydd y Cyngor yn glir gyda phlant a phobl ifanc ynghylch pwrpas pob gweithgaredd cyfranogi, pwy fydd yn gwranddo, beth all newid, a beth na ellir ei newid. Bydd adborth yn rhan annatod o'r broses.

Atebolrwydd

Bydd cyfrifoldeb clir ar wasanaethau, rheolwyr a'r bwrdd gweithredu perthnasol i ystyried y materion a godir gan blant a phobl ifanc, ymateb iddynt, a chofnodi unrhyw gamau gweithredu neu resymau dros beidio â gweithredu.

Sut mae'r strwythur yn gweithio?

Mae trefniadau fforymau llais plant a phobl ifanc Gwynedd wedi'u seilio ar lif clir o'r lefel leol i'r lefel sirol.

1. Lefel leol

Ar lefel leol, gall plant a phobl ifanc rannu eu barn drwy ysgolion, cyngorau ysgol, clybiau ieuenctid, grwpiau cymunedol, gwasanaethau penodol, prosiectau partner neu gysylltiadau uniongyrchol â gweithwyr proffesiynol.

- trafodaethau mewn ysgolion neu grwpiau dysgwyr;
- grwpiau ieuenctid lleol;
- grwpiau penodol megis grwpiau llesiant, grwpiau LHDTG+, grwpiau cymunedol neu grwpiau gwasanaeth;
- arolygon neu holiaduron ar bwnc penodol;
- sgysiau anffurfiol gyda gweithwyr y mae gan bobl ifanc berthynas ymddiriedus â hwy;
- dulliau digidol neu ddienw ar gyfer pobl ifanc nad ydynt yn dymuno siarad mewn cyfarfod.

Mae'r lefel hon yn bwysig oherwydd dyma lle mae profiadau byw plant a phobl ifanc yn cael eu clywed yn agos at eu cymunedau, eu hysgolion a'u gwasanaethau.

2. Lefel ranbarthol

Bydd fforymau rhanbarthol yn dod â chynrychiolwyr o wahanol grwpiau lleol ynghyd ar draws tair ardal Gwynedd.

- Arfon;
- Dwyfor;
- Meirionnydd.

Diben y fforymau rhanbarthol yw rhannu materion sy'n codi'n lleol, adnabod themâu cyffredin, trafod blaenoriaethau ardal, a chytuno pa faterion ddylai symud ymlaen i lefel sirol.

Bydd y fforymau hyn yn gallu cynnwys cynrychiolwyr o ysgolion, y Gwasanaeth Ieuenctid, gwasanaethau cymdeithasol, partneriaid trydydd sector, grwpiau cymunedol a gwasanaethau eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

3. Lefel sirol

Bydd Fforwm Ieuenctid Gwynedd yn gweithredu fel y prif fecanwaith sirol ar gyfer dod â lleisiau plant a phobl ifanc at ei gilydd.

- Llais Ni: Ysgolion;
- Llais Ni: Gwasanaeth Ieuenctid;
- Llais Ni: Gwasanaethau.

Bydd y tair ffrwd yn sicrhau bod llais plant a phobl ifanc yn cael ei gasglu o amrywiaeth o brofiadau: profiad ysgol, profiad cymunedol ac ieuenctid, a phrofiad o wasanaethau penodol.

Diben Fforwm Ieuenctid Gwynedd fydd:

- trafod materion sydd wedi'u codi gan blant a phobl ifanc;
- adnabod blaenoriaethau sirol;
- cyflwyno safbwyntiau plant a phobl ifanc i'r Cyngor;
- cytuno ar gamau gweithredu gyda'r gwasanaethau perthnasol;
- derbyn adborth ar gynnydd;
- sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu gweld effaith eu cyfraniad.

Y cysylltiad â gwneud penderfyniadau

Bydd y fforymau yn cysylltu â threfniadau gwneud penderfyniadau'r Cyngor drwy sawl llwybr.

Gall materion a godir gan blant a phobl ifanc gael eu cyflwyno i:

- dimau rheoli adrannol;
- gwasanaethau perthnasol;
- grwpiau gweithredu;
- aelodau Cabinet;
- aelodau etholedig;
- pwyllgorau perthnasol;
- trefniadau craffu neu lywodraethu pan fo hynny'n briodol.

Bydd gwasanaethau'r Cyngor hefyd yn gallu cyflwyno materion i'r fforymau er mwyn gofyn am farn plant a phobl ifanc cyn datblygu polisi, adolygu gwasanaeth neu wneud penderfyniad perthnasol.

Mae hyn yn creu llif dwyffordd:

O blant a phobl ifanc i'r Cyngor	O'r Cyngor i blant a phobl ifanc
Plant a phobl ifanc yn codi materion sy'n bwysig iddynt.	Gwasanaethau'n gofyn am farn ar bolisi, cynllun neu wasanaeth.
Fforymau lleol a rhanbarthol yn adnabod themâu.	Gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn ffordd hygrych.
Fforwm Sirol yn cytuno ar flaenoriaethau.	Plant a phobl ifanc yn cael cyfle i herio, cwestiynu a chyfrannu.
Materion yn cael eu trosglwyddo i wasanaethau neu aelodau.	Adborth yn cael ei roi ar beth sydd wedi newid neu pam nad yw newid yn bosibl.

Y cylch gweithredu

Bydd gwaith y fforymau yn dilyn cylch gweithredu clir:

1. Gwranddo

Mae plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd i rannu barn, profiadau, pryderon a syniadau drwy ddulliau sy'n addas iddynt.

2. Casglu a deall

Mae'r wybodaeth yn cael ei chasglu, ei dadansoddi a'i thrafod er mwyn adnabod themâu, blaenoriaethau a materion sydd angen ymateb.

3. Trafod a chytuno

Mae plant a phobl ifanc, gweithwyr proffesiynol, partneriaid a'r Cyngor yn trafod y canfyddiadau ac yn cytuno ar gamau gweithredu lle bo hynny'n briodol.

4. Gweithredu gyda'n gilydd

Mae gwasanaethau, adrannau neu bartneriaid yn cymryd camau i ymateb i'r materion a godwyd. Gall hyn gynnwys newid trefniadau, addasu gwasanaeth, datblygu adnoddau, codi ymwybyddiaeth neu gomisiynu gwaith pellach.

5. Adborth

Mae plant a phobl ifanc yn cael gwybod beth sydd wedi digwydd o ganlyniad i'w cyfraniad. Lle nad yw newid yn bosibl, bydd rhesymau clir ac onest yn cael eu rhoi.

6. Adolygu

Mae'r fforymau yn dychwelyd at y materion a godwyd er mwyn gwirio a yw'r camau gweithredu wedi gwneud gwahaniaeth, ac a oes angen gwaith pellach.

Sut mae'r fforymau yn gwneud gwahaniaeth?

Bydd y fforymau yn gwneud gwahaniaeth pan fo modd dangos bod barn plant a phobl ifanc wedi dylanwadu ar feddwl, penderfyniadau neu weithredu.

Gall hyn gynnwys:

- newid i bolisi neu weithdrefn;
- addasu ffordd y mae gwasanaeth yn cael ei ddarparu;
- adnabod rhwystrau i blant a phobl ifanc;
- gwella cyfathrebu rhwng y Cyngor a phobl ifanc;
- datblygu cyfleoedd hyfforddi neu wybodaeth i bobl ifanc;
- codi materion lleol i sylw strategol;
- gwella dealltwriaeth y Cyngor o brofiad byw plant a phobl ifanc;
- cryfhau hyder, sgiliau ac ymdeimlad pobl ifanc o berthyn a dylanwad.

Nid yw effaith bob amser yn golygu bod pob cais gan blant a phobl ifanc yn arwain at newid uniongyrchol. Weithiau, yr effaith fydd bod penderfyniad yn cael ei wneud ar sail gwell dealltwriaeth o brofiad pobl ifanc, neu fod rhesymau dros beidio â newid yn cael eu hesbonio'n gliriach.

Beth ddylem ei weld mewn trefniadau effeithiol?

Pan fo'r fforymau yn gweithio'n effeithiol, dylai fod tystiolaeth bod:

- plant a phobl ifanc yn deall pwrpas y fforwm a sut gall eu barn ddylanwadu;
- cynrychiolaeth o wahanol ardaloedd, gwasanaethau, cefndiroedd a phrofiadau;
- materion yn cael eu codi gan blant a phobl ifanc eu hunain, nid gan oedolion yn unig;
- barn pobl ifanc yn cael ei chofnodi'n glir ac yn cael ei chrynhof heb golli ystyr eu neges;
- camau gweithredu yn cael eu cytuno gyda chyfrifoldebau ac amserlenni;
- gwasanaethau'r Cyngor yn ymateb i'r materion a godwyd;
- aelodau etholedig a rheolwyr yn gwrando'n uniongyrchol ar blant a phobl ifanc lle bo hynny'n briodol;
- adborth yn cael ei roi i bobl ifanc ar effaith eu cyfraniad;
- themâu o'r fforymau yn bwydo i gynllunio gwasanaethau, blaenoriaethau gwella ac adroddiadau perthnasol.

Mesur effaith

Er mwyn dangos bod y fforymau yn gwneud gwahaniaeth, dylid casglu tystiolaeth ar dair lefel:

Lefel	Cwestiwn sicrwydd	Enghreifftiau dystiolaeth ^o
Plentyn neu berson ifanc	A yw'r plentyn neu'r person ifanc wedi cael cyfle ystyrlon i leisio barn ac i ddeall beth ddigwyddodd wedyn?	Cofnodion cyfranogiad; adborth gan bobl ifanc; presenoldeb mewn fforymau; enghreifftiau o adborth unigol neu grŵp.
Fforwm neu ranbarth	A yw'r fforwm wedi adnabod themâu, blaenoriaethau a chamau gweithredu clir?	Cofnodion cyfarfodydd; cynlluniau gweithredu; themâu rhanbarthol; cofnodion "Dywedoch chi - Gwnaethom ni".
Strategol	A yw lleisiau plant a phobl ifanc wedi dylanwadu ar bolisi, cynllunio gwasanaethau neu benderfyniadau'r Cyngor?	Adroddiadau i dimau rheoli neu bwyllgorau; newidiadau i bolisi neu ddarpariaeth; cofnodion penderfyniadau; diweddariadau i Fforwm leuenctid Gwynedd.

Rolau a chyfrifoldebau

Rôl	Cyfrifoldeb
Plant a phobl ifanc	Rhannu barn, profiadau a syniadau; cynrychioli safbwyntiau ehangach lle bo hynny'n briodol; cyfrannu at flaenoriaethau a chamau gweithredu.
Cynrychiolwyr fforymau	Casglu barn gan gyfoedion, cyfrannu at drafodaethau lleol, rhanbarthol a sirol, a helpu i rannu adborth.
Gweithwyr ieuenctid, ysgolion a gweithwyr gwasanaethau	Cefnogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan, dileu rhwystrau, hyrwyddo pynciau llosg, a sicrhau bod llais pobl ifanc yn cael ei gofnodi a'i rannu.
Cydlunydd y fforwm	Hwyluso'r trefniadau, cefnogi cyfarfodydd, cydlynw gwybodaeth, monitro cynnydd a sicrhau bod adborth yn cael ei rannu.
Rheolwyr gwasanaeth ac arweinwyr fîm	Ymateb i'r materion a godir, rhannu gwybodaeth o fewn eu gwasanaethau, cytuno ar gamau gweithredu a sicrhau cynnydd.
Bwrdd gweithredu neu grŵp llywodraethu	Goruchwyllo'r trefniadau, sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu monitro, a chryfhau atebolrwydd corfforaethol.
Aelodau etholedig	Gwrandao ar leisiau plant a phobl ifanc, darparu her ddemocrataidd, a sicrhau bod eu barn yn cael ei hystyried mewn penderfyniadau perthnasol.
Partneriaid	Cefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc o wahanol gymunedau a gwasanaethau, a rhannu gwybodaeth berthnasol i lywio gwelliant.

Model gweithredu'r Fforwm a'r Cabinet Pobl Ifanc

Aelodaeth a chynrychiolaeth

Bydd trefniadau dewis aelodau yn agored, yn hygyrch ac yn cael eu hegluro i bobl ifanc. Bydd cynrychiolaeth o Arfon, Dwyfor a Meirionnydd, ysgolion, y Gwasanaeth Ieuenctid, defnyddwyr gwasanaethau a phobl ifanc nad ydynt yn ymgysylltu drwy strwythurau ffurfiol. Bydd dulliau ychwanegol yn casglu barn pobl nad ydynt yn aelodau o fforwm.

Rhannu cyfrifoldebau

Bydd rolau megis cadeirydd, dirprwy gadeirydd ac ysgrifennydd yn cael eu rhannu neu eu dirprwyo. Bydd aelodau wrth gefn neu gyd-gynrychiolwyr yn gallu cefnogi'r prif gynrychiolydd er mwyn lleihau pwysau a sicrhau parhad.

Cyfarfodydd ac agenda

Bydd y Fforwm a'r Cabinet Pobl Ifanc yn cyfarfod yn rheolaidd drwy'r flwyddyn. Bydd mecanwaith syml i bobl ifanc gyflwyno eitemau agenda, a bydd rhan o bob agenda yn cael ei gosod gan bobl ifanc eu hunain.

Cofrestr gweithredu ac adborth

Bydd cofrestr weithredu hygyrch yn nodi'r mater, y perchennog, y cam nesaf, yr amserlen, y statws a'r adborth a

roddwyd. Bydd diweddariadau'n cael eu darparu hyd yn oed pan nad oes penderfyniad terfynol.

Y berthynas â'r Cabinet Pobl Ifanc

Bydd Fforwm Ieuenctid Gwynedd yn pennu'r blaenoriaethau sirol. Bydd y Cabinet Pobl Ifanc, fel grŵp gweithredol o fewn y Fforwm, yn cyflwyno'r blaenoriaethau hynny i benderfynwyr, yn gofyn am ddiweddariadau ac yn adrodd yn ôl i'r Fforwm.

Crynodeb

Mae fforymau llais plant a phobl ifanc Gwynedd yn darparu strwythur clir i symud llais plant o brofiad lleol i ddylanwad strategol. Maent yn cysylltu ysgolion, gwasanaethau ieuenctid, gwasanaethau'r Cyngor, partneriaid, rheolwyr ac aelodau etholedig mewn trefn sy'n galluogi plant a phobl ifanc i godi materion, trafod blaenoriaethau, dylanwadu ar weithredu a chael adborth.

Y prawf o lwyddiant yw nad yw llais plant a phobl ifanc yn aros mewn cyfarfod neu mewn cofnod, ond ei fod yn arwain at well dealltwriaeth, penderfyniadau gwell, gwasanaethau mwy perthnasol ac ymdeimlad cryfach ymysg plant a phobl ifanc bod eu barn yn cael ei chlywed, ei pharchu a'i defnyddio.

